Dylan Thomas

From: ERF Service Requests and Enquiries <erf@conwy.gov.uk>
Sent: 14 August 2026 17:04
Subject: Ymgynghoriad Cyhoeddus Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus - Rheoli Cŵn 2026 / Public Consultation - Dog Control Public Spaces Protection Order 2026

Annwyl Glerc,

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014

Ymgynghoriad Cyhoeddus Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus - Rheoli Cŵn 2026

Yng Nghonwy, mae Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus – Rheoli Cŵn 2023 ar waith i hyrwyddo perchnogaeth cŵn cyfrifol a chefnogi mannau cyhoeddus diogel, pleserus i bawb.

Roedd y Gorchymyn yn destun proses ddemocrataidd lawn ac ymgynghoriadau cyhoeddus llawn, a ddangoswyd fod cefnogaeth gyhoeddus gref o blaid y cynigion, ac o ganlyniad gwnaed y Gorchymyn i'w wneud yn drosedd i:

- Methu codi baw cŵn ar unwaith.
- Methu cario dull priodol i gasglu baw ci.
- Caniatáu i gi fynd ar dir ble mae cŵn wedi eu heithrio drwy'r flwyddyn; a
- Caniatáu i gi fynd ar dir ble mae cŵn wedi eu heithrio'n dymhorol.
- Peidio cadw ci ar dennyn mewn ardal ddynodedig.
- Peidio rhoi a chadw ci ar dennyn pan fyddant yn derbyn cyfarwyddyd i wneud hynny gan swyddog awdurdodedig.

Mae'r Rheolaethau cyffredinol hyn ac unrhyw rai sy'n benodol i'ch ardal chi i'w gweld yn Gorchmynion rheoli cŵn ar gyfer eich ardal - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Gellir cyflwyno Rhybudd Cosb Benodedig (dirwy) o £100 i berchnogion os byddant yn gwneud unrhyw un o'r rhain.

Mae cyflwyno'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Agored Cyhoeddus wedi helpu i:

- Greu mannau awyr agored mwy diogel a chroesawgar i berchnogion cŵn a phobl heb gŵn
- Mynd i'r afael â phroblemau baw cŵn

Beth rydym yn ei gynnig nawr

Er gwaethaf y gwelliannau hyn, mae baw cŵn a materion eraill cysylltiedig â chŵn yn parhau i fod yn achos pryder allweddol i gymunedau ledled y sir. O ganlyniad, rydym yn cynnig ymestyn y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus - Rheoli Cŵn 2023 am 3 blynedd, er mwyn creu Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus - Rheoli Cŵn 2026, fel y gallwn barhau i sicrhau ac annog perchnogaeth cŵn cyfrifol yng Nghonwy, a chefnogi gofodau cyhoeddus diogel, glân, llawn mwynhad i bob cymuned, mewn modd cyfrannol ac effeithiol.

Mae'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus yn dod i ben ym mis Hydref 2026. Os na fydd y Gorchymyn yn cael ei ymestyn, bydd yn dod i ben, ac ni fydd unrhyw gyfyngiadau gorfodi cyfreithiol ar gŵn yn Sir Conwy.

Rydym yn ystyried ei bod yn rhesymol tybio y byddai unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn perthynas â chŵn a'u rheolaeth mewn ardaloedd cyfyngedig yn digwydd eto a/neu o bosibl yn cynyddu ac/neu'n fwy difrifol pe na fyddai'r Gorchymyn yn cael ei ymestyn.

Ymgynghoriad Cyhoeddus

I'r perwyl hwnnw, fel unigolyn a diddordeb neu fudd-ddeiliad, mae ar y Cyngor eisiau gwybod beth yw'ch barn ar ymestyn ac amrywio'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Agored Cyhoeddus – Rheoli Cŵn 2023.

Mae holl fanylion y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus 2026 Arfaethedig, ynghyd â'r dogfennau ymgynghori ar gael yn Adolygiad o Orchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus - Rheoli Cŵn 2023 - Ymgynghoriad Cyhoeddus

Os oes arnoch chi angen copïau papur, ffoniwch 01492 574000

Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal rhwng 14/08/2026 a 11/09/2026 ac wedi hynny, bydd ymatebion yn cael eu hystyried a'r canfyddiadau yn cael eu hadrodd i'r Cyngor drwy'r broses ddemocrataidd yn ystod Hydref/Gaeaf 2026, pan gydd y Cyngor yn gwneud penderfyniad i gadarnhau cynnwys y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus 2026, neu fel arall. Os yw'n cael ei gadarnhau, bydd y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus newydd, gan gynnwys unrhyw newidiadau, yn cael ei gyflwyno yn Hydref/Gaeaf 2026. Byddai'n cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor, tudalennau'r cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â'i fyrddau gwybodaeth digidol, ac yn lleol ledled y sir lle mae amrywiadau i'r rheolyddion cŵn wedi digwydd.

***

Dear Clerk,

The Anti-Social Behaviour, Crime And Policing Act 2014

Public Consultation - Dog Control Public Spaces Protection Order 2026

In Conwy to promote responsible dog ownership and support safe, enjoyable public spaces for everyone we have in place the Dog Control Public Spaces Protection Order (PSPO) 2023. The Order was subject to the full democratic process and full public consultation which showed there was strong public support for the proposals therefore the Order was made making it an offence to:

- Fail to remove dog faeces immediately.
- Fail to carry an appropriate means to pick up.
- Permit a dog to enter land from which dogs are excluded year round; and
- Permit a dog to enter land from which dogs are excluded seasonally
- Not keep a dog on a lead in a designated area.
- Not put, and keep, a dog on a lead when directed to do so by an authorised officer.

These general controls and any specific to your area can be found at Dog control orders in your area - Conwy County Borough Council

Owners can be issued with a Fixed Penalty Notice (fine) of £100 if they do any of these things.

The introduction of the PSPO has helped us:

- Create safer and more welcoming outdoor spaces for dog owners and non dog owners
- Tackle dog fouling issues

What we are proposing now

Despite these improvements, dog fouling and other dog related issues remain a key cause for concern for communities across the county. We are therefore proposing to extend the current Dog Control PSPO 2023 for 3 years to create the Dog Control PSPO 2026 so that we can continue to ensure and encourage responsible dog ownership in Conwy whilst supporting safe, clean and enjoyable public spaces for all our communities in a proportionate and effective manner

The current PSPO runs to October 2026, In the event of the PSPO not being extended, it will lapse, at which point there will be no legally enforceable restrictions on dogs in Conwy County.

We consider it reasonable to assume that anti-social behaviour regarding dogs and their control in the restricted areas would reoccur and/or increase in frequency, and/or seriousness, if the Order is not extended.

Public Consultation

To that end as an appropriate interested party or stakeholder the Council would like your views on extending and varying the Dog Control PSPO 2023.

Full details of the proposed Public Spaces Protection Order 2026 together with the consultation documentation can be found at Review of the Dog Control Public Spaces Protection Order (PSPO) 2023 - Public Consultation

Should you require a hard copy please contact 01492 574000

The public consultation will run between 14/08/2026 and 11/09/2026 following which responses will be considered and findings reported to the Council through the democratic process during Autumn/Winter 2026, when the Council will make a decision to confirm or otherwise the contents of the PSPO 2026. If confirmed, the new PSPO, including any changes, would be introduced in Autumn/Winter 2026. It would be publicised on the Council's website, social media pages as well as on its digital information boards and locally across the county where variations in the dog controls have occurred.

Cofion cynnes / Kind regards,

AFFCH / ERF
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau / Environment, Roads & Facilities
Cyngor Bwrdeistref Sirol CONWY County Borough Council

Ffoniwch/Call 01492 575337
affch@conwy.gov.uk / erf@conwy.gov.uk
www.conwy.gov.uk

Peidiwch â phrintio'r neges yma os nad oes angen Please don't print this e-mail unless you really need to

Lleihau Ailddefnyddio Ailgylchu ✓ Reduce Re-use Recycle

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd. Ni fydd gohebiaeth yn yr un iaith na'r llall yn arwain at unrhyw oedi.
Mae'r neges e-bost hon ac unrhyw ymgysylltiadau yn gyfrinachol, ac wedi eu bwriadu ar gyfer yr un sy'n cael ei h/enwi yn unig. Gallent gynnwys gwybodaeth freintiedig. Ar gyfer yr amodau llawn ynglŷn â chynnwys a defnyddio'r neges e-bost hon ac unrhyw atodiadau, gweler https://www.conwy.gov.uk/ebost_ymwadiad

We welcome correspondence in both Welsh and English. We will respond to correspondence in either language without delay.
This email and any attachments are confidential and intended for the named recipient only. The content may contain privileged information. For full conditions in relation to content and use of this e-mail message and any attachments, please refer to https://www.conwy.gov.uk/email_disclaimer